

Tasg 2

(Estynnol, sbardun 3)

Gemau Paralympaidd

Atebwch y cwestiynau yma.

1. Yn ôl y darn, pam mae'n rhaid i'r gynulleidfa sy'n gwylio'r gêm pêl-gôl fod yn dawel?

2. Mae dwy ran i'r frawddeg olaf:

Rhaid i'r gynulleidfa beidio â gwneud unrhyw sŵn,
Rhan 1

fel bod y chwaraewyr yn medru clywed y clychau yn y bêl.
Rhan 2

Ticiwch yr ateb cywir:

Mae Rhan 2 yn:

- a. ailadrodd Rhan 1
 - b. gwrth-ddweud Rhan 1
 - c. cwestiynu Rhan 1
 - ch. esbonio Rhan 1
3. Chwiliwch ar y we am wybodaeth am un o'r cystadlaethau Paralympaidd eraill.

Ysgrifennwch ddarn sy'n egluro sut i chwarae'r gêm neu sut i wneud y gamp. Lawrlwythwch luniau i fynd gyda'r darn rydych chi'n ei ysgrifennu.